Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU





**Prosiect Diogelu Llwybr Penrallt**

Dyma luniau o’r gwaith sydd ar waith i Ddiogelu Llwybr Penrallt. Nod y prosiect yw sicrhau darpariaeth y llwybr fel rhan o’r Llwybr Arfordir, sy’n rhedeg ar hyd clogwyni’r môr o Nefyn i Morfa Nefyn. Mae’r arfordir yma wedi’i ddynodi yn Arfordir Treftadaeth ac mae Llwybr Penrallt yn adnodd gwerthfawr i drigolion lleol ac ymwelwyr. Yn sgil natur cleiog y clogwyn, mae rhan o’r llwybr yn dioddef erydiad arfordirol a nod y prosiect yma yw gwella a diogelu rhan o'r llwybr nodedig. Mae’r cynllun i sefydlogi’r llwybr yn cael ei gyflawni gan gwmni Rock Engineering Ltd, sydd yn gyflenwr arbenigol. Disgwylir bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn mis Mehefin 2024.

Mae’r prosiect yn cael ei gyllido yn bennaf gan Lywodraeth y DU drwy’r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Hefyd daw cyllid a chefnogaeth tuag at y prosiect gan Cyngor Tref Nefyn, Ymddiriedolaeth Drefol Nefyn a Chyngor Gwynedd.

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

POWERED BY LEVELLING UP